## Pwy sy'n cyflawni'r Cod Dioddefwyr?

Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gyfrifol am sicrhau bod dioddefwyr yn cael yr hawliau yn y Cod Dioddefwyr. Gallwch ddisgwyl iddynt ddweud wrthych am eich hawliau wrth i chi fynd drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

Mae'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cynnwys:

- Yr heddlu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLlTEF)
- Timau Troseddau Ieuenctid
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS)
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP)

Os byddwch yn penderfynu peidio â rhoi gwybod am y drosedd, byddwch yn dal yn gallu cael help a chlywed am y Cod Dioddefwyr gan wasanaethau cymorth.


## Alla i gael rhagor o gymorth fel dioddefwr trosedd?

Os ydych chi o dan 18 oed, yn cael eich ystyried yn agored i niwed, wedi cael eich bygwth neu wedi cael eich targedu'n fwriadol dro ar ôl tro, neu'n ddioddefwr trosedd difrifol, efallai y byddwch yn gymwys i gael rhagor o hawliau. Mae'r rhain yn cynnwys cael eich atgyfeirio at wasanaeth cymorth arbenigol, cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn gynt ar ôl penderfyniadau allweddol, a chael cymorth ychwanegol i roi tystiolaeth yn y llys.

## Sut galla i gael rhagor o wybodaeth?

Mae'r wefan Gwybodaeth i Ddioddefwyr a Thystion yn egluro eich hawliau a beth i'w ddisgwyl ar bob cam o'r broses cyfiawnder troseddol – rhoi gwybod am y drosedd, ymchwiliad yr heddlu, mynd i'r llys ac ar ôl y treial. Gallwch hefyd gael gwybod sut mae cael cymorth yn eich ardal leol ac ar-lein.

Ewch i **cym.victimscode.org.uk**
i ddeall eich hawliau



## Beth yw'r Cod Dioddefwyr?

**Mae'r Cod Dioddefwyr yn egluro'r hawliau y gall pawb ddisgwyl eu cael fel dioddefwr trosedd.**

Pwy bynnag ydych chi a beth bynnag fo'r drosedd, mae gennych chi hawl i gael gwybod am y broses cyfiawnder troseddol a'r cymorth sydd ar gael.

## Beth yw fy hawliau o dan y Cod Dioddefwyr?

**Hawl 1: Gallu deall pethau a chael eich deall**
Mae gennych chi hawl i ddeall yr wybodaeth a roddir i chi ac i gael eich deall. Mae hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd os oes angen.

**Hawl 2: Cael cofnodi manylion y drosedd heb oedi diangen**
Mae gennych chi hawl i gael yr heddlu i gofnodi'r drosedd yn brydlon ac efallai y byddwch yn gallu cael cymorth ychwanegol gan arbenigwr os bydd angen help arnoch chi i gyfathrebu.

**Hawl 3: Derbyn gwybodaeth pan fyddwch yn adrodd wrth yr heddlu am y drosedd**
Mae gennych chi hawl i gael cadarnhad ysgrifenedig bod y drosedd wedi'i chofnodi, i gael gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol, ac i gael gwybod am wasanaethau cymorth.

**Hawl 4: Cael eich atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr a chael gwasanaethau a chefnogaeth wedi eu teilwra i'ch anghenion**
Mae gennych chi hawl i gael eich atgyfeirio at wasanaethau cymorth neu i gysylltu â nhw'n uniongyrchol. Dylech chi hefyd gael gwybod am unrhyw gymorth ychwanegol sydd ar gael i chi yn y llys.

**Hawl 5: Derbyn gwybodaeth am iawndal**
Mae gennych chi hawl i gael gwybod am iawndal a allai fod ar gael am unrhyw golled, difrod neu anaf a achosir gan drosedd.

**Hawl 6: Derbyn gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad**
Mae gennych chi hawl i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am eich achos, i gael gwybod am benderfyniadau pwysig ac i ofyn am adolygiad o rai penderfyniadau.

**Hawl 7: Gwneud Datganiad Personol y Dioddefwr**
Mae gennych chi hawl i wneud datganiad yn dweud wrth y llys sut mae'r trosedd wedi effeithio arnoch chi, a fydd yn cael ei ystyried wrth ddedfrydu'r troseddwr.

**Hawl 8: Derbyn gwybodaeth am y treial, proses y treial a'ch rôl fel tyst**
Mae gennych chi hawl i gael gwybod am ddyddiad, lleoliad a chanlyniad unrhyw wrandawiad. Os oes angen i chi roi tystiolaeth, gallwch chi gael help cyn, yn ystod ac ar ôl y treial.

**Hawl 9: Derbyn gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apeliadau**
Mae gennych chi hawl i gael gwybod beth yw canlyniad yr achos a'r ddedfryd. Os bydd y troseddwr yn apelio, dylech chi gael gwybod beth yw'r canlyniad.

**Hawl 10: Derbyn treuliau a chael eich eiddo yn ôl**
Mae gennych chi hawl i hawlio treuliau ar ôl rhoi tystiolaeth yn y llys. Os cafodd eiddo ei gymryd fel tystiolaeth, dylech chi ei gael yn ôl yn brydlon.

**Hawl 11: Derbyn gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn**
Mae gennych chi hawl i ymuno â'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr os ydych chi'n gymwys. Mae'r cynllun yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddedfryd y troseddwr, gan gynnwys pan fydd yn cael ei ystyried ar gyfer rhyddhau.

**Hawl 12: Gwneud cwyn am hawliau sydd heb eu diwallu**
Mae gennych chi hawl i gwyno wrth y sefydliad perthnasol os ydych chi'n anhapus â'r ffordd rydych chi wedi cael eich trin.